

Arddangos rhywfaint o waith y tîm cefn gwlad a threftadaeth yn Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

## Newyddion Haf Cefn Gwlad a Threftadaeth Sir Ddinbych 2015

## Countryside & Heritage Summer News Denbighshire 2015



## Mwynhewch anturiaethau'r haf yn ein cefn gwlad godidog

Hoffwch ein tudalen facebook (<https://www.facebook.com/DenbighshireCountrysideService>) i gael diweddariadau a digwyddiadau.

Dathlwch y 30ain Pen-blwydd ers i Fryniau Clwyd ddod yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – byddwch yn barod am ddigwyddiadau, heriau a stwff yn y wasg.



**Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau yn dathlu blwyddyn arall o ragoriaeth**  
Diolch yn fawr i'n hymwelwyr gwych am eich adolygiadau. Diolch hefyd i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed i gadw'r parciau'n hardd, yn ddiogel a chroesawgar i ymwelwyr a'n fflora a ffawna preswyl.

### Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy – Yr Ymosodiad

Dyma'r drydedd flwyddyn o frwydro'n uniongyrchol yn erbyn planhigion anffrodorol ymledol iawn sy'n bygwth lles ecoleg y Ddyfrdwy.

Mae gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, tirfeddianwyr, grwpiau ysgolion a genweirwyr wedi bod yn cynorthwyo staff o'r AHNE, Parc Cenedlaethol Eryri, Wrecsam, Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru i wneud gwahaniaeth go iawn.

Ac mae'r gwahaniaeth yn amlwg.

Cymaint felly, fel na fyddwn yn cynnwys safle allweddol yng Nghorwen gan ei fod yn rhydd o'r ffromlys i bob pwrpas! Mae hyn yn dangos y gall ymgyrch wedi'i chydlynu wneud gwahaniaeth.

Er hynny, mae milltiroedd lawer o lannau'r afon wedi osgoi ymgyrch o'r fath y llynedd, gyda chymorth caredig Llangollen Outdoors, gallai'r AHNE fapio o Landderfel i Langollen. Amlygodd yr arolwg dau ddiwrnod ar rafft cymaint mwy o waith sydd ei angen.



Pam na ddowch chi draw i ymuno â ni am fwy o frwydro eleni? Ffoniwch 01978 869618 am fwy o wybodaeth neu hoffwch ni ar facebook.

### **Ystlumod Pedol Lleiaf Nantclwyd yn Serennu**

Mae Nantclwyd y Dre, tŷ tref pren hanesyddol yn Rhuthun, yn gartref i nythfa i'r ystlum pedol lleiaf. Mae'r ystlumod yn ferched, sy'n dychwelyd i'r atig bob gwanwyn a haf i roi genedigaeth a magu eu rhai bach. Mae'r Ystlum Pedol Lleiaf yn un o'r rhywogaethau ystlumod prinnaf ym Mhrydain, felly rydym yn hynod ffodus i gael man clwydo mamolaeth â thipyn o faint.



Eleni, bydd yr ystlumod yn sêr y sgrin wrth iddynt gael eu ffilmio o amgylch y cloc gan gamerâu is-goch. Mae cyllid grant gan Sw Caer wedi caniatáu gosod system gamera, monitro ac offer recordio newydd, er mwyn i aelodau'r cyhoedd a

gwyddonwyr fel ei gilydd allu dysgu mwy am y creaduriaid hynod ddiddorol hyn.

Darllediad Byw (<http://www.chesterzoo.org/attractions-and-exhibits/web-cams/bat-cam>) diolch i nawdd gan Grŵp Systemau NW.

Peidiwch ag anghofio ein bod yn cynnal nifer o deithiau cerdded a digwyddiadau ar thema ystlumod o amgylch y sir yn ystod yr haf hwn, gan gynnwys cyfle i wyllo'r ystlum pedol lleiaf yn gadael eu man clwydo wrth iddi nosi ar 27 Awst. Gweler ein rhaglen ddigwyddiadau Ar Grwydr



### **Yn dod yn fuan ....**

#### **Cwest Rhaeadr y Bedol**

App newydd, llawn hwyl i'r teulu i'ch helpu i ddarganfod bywyd gwyllt a hanes Rhaeadr y Bedol, dechrau'r Safle Treftadaeth y Byd

## Ydych chi wedi gweld 'Ratty'?

Arferai llygod pengrwn y dŵr fod yn olygfa gyffredin ar hyd afonydd y DU, a dyna pam y serennodd "Ratty" yn The Wind in the Willows. Fodd bynnag, mae eu niferoedd wedi gostwng o 90% yn genedlaethol; yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y cynefinoedd addas ac ysglyfaethu gan y minc Americanaidd.

Fel rhan o Brosiect Adfer Llygod Pengrwn y Dŵr Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru rydym yn gofyn i'r cyhoedd ymuno yn 'helfa llygoden bengrwn y dŵr' drwy roi gwybod os ydynt yn gweld llygod pengrwn y dŵr yn ardal Gogledd-ddwyrain Cymru. I roi gwybod eich bod wedi gweld llygoden bengrwn y dŵr, ewch i safle \*\* Cofnod (<http://www.cofnod.org.uk>) a chliciwch ar yr eicon 'Cofnodi Llygoden Bengrwn y Dŵr'.



## Dyma rai digwyddiadau i ddod i'ch temtio yn ystod gwyliau'r haf.....

Pob dydd Sul: creu cestyll, adeiladu deniau, gemau gardd a chelf a chreffft yn Nantclwyd y Dre Rhuthun.

Dydd Sul 19 Gorffennaf Marchogion a Thywysogesau yn Lladd draig neu'n cael eu hachub o'r tŵr. Nantclwyd y Dre, Rhuthun

Dydd Mercher 22 Gorffennaf Ffyn Coblynnod a Thylwyth Teg 11am – 3pm Parc Gwledig Loggerheads, £4 y plentyn

Dydd Mercher 22 Gorffennaf, Cloddio ym Moel y Gaer Bodfari 2 – 5pm Safle bws Bodfari SJ09687013

Dydd Iau 23 Gorffennaf, Chwilota yn yr Afon 10.30am - 12.30pm Prif faes parcio, Corwen

Dydd Sadwrn 1 Awst, Diwrnod Hwyl i'r Teulu 10:30am – 4pm Coed Moel Famau SJ 172 612

Dydd Mawrth 4 Awst, Bywyd Nos yn Llangwyfan 8.30pm – 10.30pm Maes parcio uchaf, Nannerch – Ffordd Llandyrnog, SJ 139 668

Dydd Mercher 5 Awst Taith Gerdded Mynydd Rhiwabon 10am – 12pm Ystafell De Prospects LL20 7YL

\*\* Am fanylion, mwy o ddigwyddiadau a sut i archebu, ewch i'n gwefan (<http://www.cefnwladsirddinbych.org.uk/>)



We teamed up with Moel Famau Shepherds Hut and Disabled Ramblers to give people the opportunity to try out these Trampers that enable those who have difficulty walking to access hard to reach places.



A muddy but fun Easter trail at Coed Nercwys.



Over 500 people enjoyed LOGGFEST



Volunteers from Step Up, Step Out, a project run by Flintshire Local Voluntary Council and participants of a volunteers and life skills programme with Denbighshire Voluntary Services Council joined forces with staff to take on a variety of tasks which included litter picking at Moel Famau Country Park and clearing scrub from Pen Y Pigyn.



Young Rangers and other youth groups helped artist Laura Ellen Bacon create living willow sculptures at Loggerheads.



Over 300 people took part in the Excalibur Marathon for Claire House Hospice.  
Charlie Sharpe 3 hours and 42 minutes marathon winner  
Half marathon winner Rob Grantham 1 hour and 38 minutes

I gael fersiwn Saesneg y newyddlen hon, ewch i'n gwefan [denbighshirecountrysideservice.org.uk](http://denbighshirecountrysideservice.org.uk).